MANTELL GWYNEDD

BWLETIN TRYDYDD SECTOR

Mantell Gwynedd
Canolfan Gwirfoddoli • Volunteer Centre

Blwyddyn Newydd Dda!

Cadeirydd ac Is Gadeirydd newydd i Fwrdd Rheoli Mantell Gwynedd

Mae Trystan Pritchard wedi ei ethol yn unfrydol fel Cadeirydd newydd Bwrdd Rheoli Mantell Gwynedd.
Yn dilyn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym Mhortmeirion fis Tachwedd 2023 safodd Gwen Griffith i lawr fel Cadeirydd ac aelod o'r Bwrdd Rheoli, a hynny yn dilyn degawdau o ymroddiad i'r trydydd sector.
Yn eu cyfarfod Bwrdd Rheoli cyntaf yn dilyn y Cyfarfod Blynyddol, penodwyd Trystan Pritchard yn Gadeirydd y Bwrdd Rheoli.

Mae Trystan yn Brif Weithredwr Hosbis Dewi Sant ers Chwefror 2014 , yn aelod o Fwrdd Gofal Cymdeithasol Cymru ers 2019 ac yn aelod o Bwyllgor Cendlaethol Loteri Cymru ers 2021.
Ymunodd â Bwrdd Mantell Gwynedd yn 2014 ac mae'n Bencampwr Gwerth Cymdeithasol Bwrdd Mantell ers 2022 yn ogystal â bod yn aelod o'r Panel Grantiau.
Mae Trystan yn dod a sgiliau gwerthfawr i Fwrdd Mantell Gwynedd gyda phrofiad strategol a gweithredol sylweddol iawn ar draws y sector gyhoeddus a phreifat yn ogystal â trydydd sector.
Penodwyd Meinir Evans, Prif Swyddog Canolfan Felin Fach yn Is Gadeirydd. Mae Meinir, fel Trystan, yn dod â phrofiad strategol a gweithredol sylweddol i'w swyddogaeth newydd ar Fwrdd Mantell Gwynedd.
Croeso i'r ddau !

Trystan Pritchard (blaen dde), Cadeirydd newydd Bwrdd Rheoli Mantell Gwynedd efo rhai o staff y cwmni

Ffôn: 01286 672 626
Gwefan: www.mantellgwynedd.com
E-bost: ymholiadau@mantellgwynedd.com

PENODI AELOD NEWYDD O STAFF I MANTELL GWYNEDD

Mae Jordan Thomas wedi ei benodi yn aelod newydd o staff Mantell Gwynedd.
Dechreuodd ar ei swydd fel Swyddog Gwirfoddoli ddechrau Ionawr 2024 a chyn hynny 'roedd yn gweithio fel Swyddog Datblygu Chwaraeon i'r Urdd.

Mae Jordan yn hannu o Sir Fôn ac wedi setlo yng Nghaergybi gyda'i deulu ifanc.
Bydd swydd Jordan yn golygu y bydd gan Mantell Gwynedd y capasiti i fod yn rhoi cefnogaeth ychwanegol i unigolion sydd yn dymuno mynd ati i wirfoddoli ond angen ychydig o gefnogaeth un i un er mwyn medru cychwyn arni.

Mae swydd Jordan yn cael ei hariannu trwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig ac yn rhan o brosiect gyda Chyngor Gwynedd sydd yn hybu gwytnwch cymunedol.

CROESO CYNNES ATOM JORDAN

Llywodraeth y DU Cymru
UK Government Wales

FFYNIANT BRO

LEVELLING UP

Ionawr – January

Ardal Penrhyn
07534 551948

Bro Ffestiniog
07385 783340

hwb@drefwerdd.cymru

Dyddiad / Date	Amser / Time	Be' sydd 'mlaen? / What's on?	Lleoliad / Where
Mawrth / Tuesday 9.1.24	13:30 - 15:30	Grwp dros 60 Over 60's group	Canolfan Gymdeithasol Blaenau Community Centre
Mawrth / Tuesday 16.1.24	11:00-13:00	Taith Gerdded Guided Walk (Lle i 12/ 12 spaces)	Maentwrog
Iau / Thursday 18.1.24	10:00 - 13:00	Creu Printiau Printmaking (Lle i 8/ 8 spaces)	Penrhyn
Mawrth / Tuesday 23.1.24	11:00 - 13:00	Gweithdy Mosaic Mosaic Workshop (Lle i 8/ 8 spaces)	Blaenau
Mawrth / Tuesday 30.1.24	11:00 - 13:00	Cerfio Coed Wood Carving (Lle i 8/ 8 spaces)	Blaenau

Dementia Actif Gwynedd

BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES REGIONAL PARTNERSHIP BOARD

GWELLIANT CYMRU IMPROVEMENT CYMRU

DIGWYDDIAD DEMENTIA CYMUNED TYWYN

Dydd Gwener 19eg o Ionawr 2024
Neuadd Pendre, 10:00yb-4:30yh

Mae Tywyn wedi cael ei dewis fel y dref gyntaf yng Ngwynedd i gynnal Ymgyrch Gwrando ar helpu i lunio dyfodol gofal a chefnogaeth dementia.

Gwahoddir pobl sy'n byw gyda dementia, gofalwyr, teuluoedd, gweithwyr proffesiynol ac aelodau o'r gymuned i ddiwrnod o wybodaeth, gweithgareddau ac hwyl. Mae croeso i chi aros am y bore neu y prynhawn... neu mae croeso i chi fynychu'r diwrnod cyfan.

Ar y diwrnod:-

- Rhaglen o weithgareddau & chyflwyniadau
- Stondinau ar gyfer gwybodaeth a chefnogaeth
- Dweud eich dweud am sut beth yw gofal dementia da
- Ffilm 'The World Turned Upside Down'
- Cinio a phaneidiau ar gael yn rhad ac am ddim

Am fwy o wybodaeth ac i archebu lle cysylltwch â Rachael:-
07976 622591
Neu drwy'r cod QR

Clwb Hel Atgofion Chwaraeon Bangor

STORIEL

BANGOR 1876

Mwynhewch y cyfle i gymdeithasu ag eraill a hel atgofion am chwaraeon dros y blynyddoedd

Dydd Llun
Storiel Bangor
1:30-3:00yh

Dementia Actif Gwynedd

Rhad ac am ddim (yn cynnwys paned!)

anwenplumb@gwynedd.llyw.cymru
Cysylltwch â Anwen 07585 454583

Rhwydwaith Gwerth Cymdeithasol Gogledd Cymru

Ein Taith Gwerth Cymdeithasol

Emily Reddy
Cydlynydd Cydlyniant Rhanbarthol
Cydlyniad Cymunedol Gogledd Ddwyrain Cymru

Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus 2023

Karen Bellis
Rheolwr Fframwaith a Chaffael Cydweithredol
Cyngor Sir Ddinbych

Cyfarfod ar Zoom
Dydd Mercher, 24 Ionawr 2024
rhwng 10.30 -12.30 o'r gloch.
I LOGI EICH LLE AM DDIM
ANFONWCH EBOST AT
svc@mantellgwynedd.com

Sesiynau hyfforddiant ar gael mis Ionawr
Cysylltwch am fwy o wybodaeth